**Sarah Jones**
**07990 826050/ Sarahjones@hotmail.com**
**https://uk.linkedin.com/in/sarahjones**

Graddedig Daearyddiaeth a Chynllunio brwdfrydig a threfnus gydag achrediad y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol (RTPI) a phrofiad mewn cynllunio a dylunio trefol. Dealltwriaeth ymarferol o swyddogaethau adran gynllunio awdurdod lleol, yn ogystal â'r holl ddeddfwriaeth a chanllawiau cynllunio perthnasol, a gafodd ei ddatblygu drwy flwyddyn ar leoliad. Sgiliau gwasanaeth i gwsmeriaid a chyfathrebu rhagorol, ond bellach yn ceisio rôl mewn cynllunio trefol.

## ADDYSG

***BSc Daearyddiaeth a Chynllunio gyda Lleoliad Proffesiynol,*** **Prifysgol Caerdydd** **2020 - 2024**

- Modiwlau perthnasol: Lleoedd a chynlluniau, Materion allweddol mewn cynllunio trefol, Datblygu cynaliadwy: Cysyniadau, arferion a heriau, Rheoleiddio datblygiad: Cyfraith Cynllunio a Pholisi
- Prosiectau: Traethawd hir ar effaith lonydd beicio ar dueddiadau cymudo
- Canlyniad: 2:1

**Ysgol Uwchradd a Chweched Dosbarth Stroud** **2013 - 2020**

- Safon Uwch: Daearyddiaeth A, Bioleg A, Mathemateg B, Economeg UG B
- TGAU: 9 x A* - C, gan gynnwys Mathemateg, Saesneg a'r Gwyddorau

## PROFIAD GWAITH PERTHNASOL

***Cynllunydd Cynorthwyol,*** **Cyngor Bro Morgannwg** **Medi 2022-Mehefin 2023**

- Gweithio o fewn adran gynllunio awdurdod lleol ar gyfer lleoliad proffesiynol, gan ennill gwybodaeth am weithrediad awdurdod lleol
- Wedi ymdrin â chynllunio a cheisiadau cysylltiedig, gan adeiladu gwybodaeth sylfaenol am ddeddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys deddfwriaeth ynghylch materion cadwraeth a threftadaeth
- Cynorthwyo gyda llunio datganiadau ar gyfer apeliadau cynllunio a gorfodi
- Yn gyfrifol am baratoi cynlluniau statudol ac anstatudol
- Wedi datblygu'r gallu i gyfathrebu'n effeithiol â chynulleidfa eang drwy gysylltu â chydweithwyr, rheolwyr, y cyhoedd a'r cyngor ehangach

***Cynllunydd Myfyrwyr*, Grŵp Cynllunio Stroud** **Gorffennaf 2021**

- Lleoliad pedair wythnos o fewn sefydliad cynllunio preifat mawr
- Ymweld â safleoedd a chyfarfodydd gyda chleientiaid ochr yn ochr ag uwch gynllunwyr, gan ddatblygu gwybodaeth drylwyr o rôl cynllunydd
- Cynnal ymchwil ar ystod o brosiectau datblygu gweithredol, gan gynnwys un prosiect treftadaeth fawr
- Wedi cyflwyno adroddiad i'r tîm a'r cyfarwyddwyr ar y tri phrosiect ymchwil a gynhaliwyd

**SGILIAU PERTHNASOL**

| | |
|---|---|
| **CYFATHREBU:** | Yn gynllunydd cynorthwyol mewn awdurdod lleol, roeddwn i'n delio'n rheolaidd ag ymholiadau gan aelodau'r cyhoedd. Mewn rhai achosion, roedd cwynion ynghylch cais cynllunio, ac roedd yn bwysig fy mod yn gwrando ar y cleient ac yn mynd i'r afael â'u pryderon yn llwyddiannus. |
| **GWEITHIO O DAN BWYSAU:** | Yn ystod fy lleoliad pedair wythnos yn gynllunydd myfyrwyr cefais dri phrosiect ymchwil i'w cwblhau erbyn diwedd fy lleoliad. Roedd yn rhaid i mi flaenoriaethu fy ngwaith yn effeithiol a bod yn drefnus iawn i sicrhau fy mod yn cwblhau'r gwaith erbyn y dyddiad cau. |
| **MENTERGARWCH:** | Wrth weithio ar lawr y siop yn Tesco mae'n bwysig bod stoc yn cael ei arddangos yn briodol. Wrth gerdded o gwmpas y siop rwy'n ymdrechu i drefnu stoc pan fo angen. |
| **GWASANAETH I GWSMERIAID:** | Mae cynnig gwasanaeth rhagorol i gwsmeriaid yn hollbwysig yn fy rôl yn Tesco. Rwy bob amser yn cyfarch cwsmeriaid wrth gerdded o gwmpas y siop ac yn gofyn a hoffen nhw unrhyw gymorth gyda'u siopa. Wrth ddelio ag unrhyw faterion neu gwynion rwy bob amser yn sicrhau eu bod yn cael eu datrys mewn modd amserol. |

**PROFIAD GWAITH ARALL**

***Cynorthwyydd Gwerthu,* Tesco** **2023 - o hyd**

- Gweini a chynghori cwsmeriaid gyda'u rhestri siopa, gan sicrhau gwasanaeth rhagorol i gwsmeriaid bob amser
- Wedi gweithio ar y tiliau yn cymryd taliadau arian parod a cherdyn
- Rheoli stoc ar lawr y siop ac yn y warws, gan drefnu nwyddau ar arddangosfeydd ac ar silffoedd

***Llysgennad Myfyrwyr,* Prifysgol Caerdydd** **2021-2022**

- Cynrychioli'r adran Daearyddiaeth a Chynllunio mewn diwrnodau agored
- Ymgysylltu â darpar fyfyrwyr a'u teuluoedd i rannu fy mhrofiad o astudio ym Mhrifysgol Caerdydd a chynorthwyo ymwelwyr i ddod o hyd i'w ffordd o amgylch y campws

**DIDDORDEBAU neu GYMWYSEDDAU ERAILL**

| | |
|---|---|
| **IEITHOEDD:** | Yn rhugl yn Ffrangeg, hunan-ddysgedig yn ystod gwyliau'r haf yn Ffrainc. |
| **GWIRFODDOLI:** | Gwirfoddolwr arweiniol ar brosiect cyfeillio i'r henoed. |
| **TG:** | Gwybodaeth ardderchog o ran pecynnau Microsoft Office. |
| **CHWARAEON:** | Aelod o dîm Clwb Pêl-rwyd Prifysgol Caerdydd |

**CANOLWYR**

| | |
|---|---|
| *Dr Chang, Prifysgol Caerdydd* | ChangM@caerdydd.ac.uk/02920 764000 |
| *Jackie Rowlands, Cyngor Bro Morgannwg* | jrowlands@valeofglam.gov.uk/ 01446 888978 |